Penddelw Ray o'r Mynydd

Cwynion canol Abertawe

Radio Ceredigion yn 'wrth-Gymraeg'

Dilyn y Cymry drwy'r capeli



# golwg

Cyfrol 23 | Rhif 6 | Hydref 7 | 2010



## Mirren, Clinton a'r ferch o Fethesda

ISSN 0969-9295

06 >

9 770969 929049

£1.50




Pencampwr torri gwallt Cymru



cymraes alltud a'r sêr

# Mirren, Clinton, y bocsiwr a'r Gymraes



**Mae actores o Ddyffryn Ogwen wedi bod yn rhannu llwyfan gyda gwir gewri'r byd bocsio, gwleidyddiaeth ac actio...**

Ers symud o fro **Un Nos Ola Leuad** i Efrog Newydd mae Gwenfair Vaughan Jones wedi bod yn troi mewn cylchoedd dethol.

Mae hi wedi cyfarfod yr actores enwog Helen Mirren a gafodd Oscar am ei phortread o'r Frenhines Elizabeth II yn **The Queen**, Hillary Rodman Clinton sydd erbyn hyn yn Ysgrifennydd Gwladol America ac yn wraig i'r cyn-Arlywydd Bill Clinton, a'r bocsiwr enwoca' erioed, Muhammad Ali.

Ar ôl cael ambell ran ar S4C – ar gyfresi **Y Palmant Aur, Pobol y Cwm** a **Hafod Haidd** - aeth Gwenfair Vaughan Jones dros y môr i'r Afal Mawr i astudio *method acting* yn y Lee Strasberg Film Institute.

Lee Strasberg oedd athro actio Marlon Brando, Al Pacino, Robert De Niro a Marilyn Monroe.

Ers ei chyfnod coleg mae'r Gymraes wedi aros yn Efrog Newydd i gynhyrchu ac actio yn y theatr. Ond yna, cafodd Gwenfair Vaughan Jones waith gyda sefydliad yr 'Emmys' rhyngwladol – sy' gyfystyr â gwobrau Bafta ym Mhrydain – a dyna sut ddaeth y cyfle i gyflwyno gwobrau mewn seremonïau crand ar y cyd â'r cyflwynydd digri' Graham Norton.

Dyma sut gafodd hi rannu llwyfan gyda Muhammad Ali a chyflwyno gwobr i Helen Mirren. Un tro, roedd un o wleidyddion mwya' pwerus y byd yn cyflwyno teyrnged i Oprah Winfrey am ei gwasanaethau i deledu rhyngwladol.

"Pan o'n i'n rhannu llwyfan gyda Hilary Clinton roedd y seciwriti diogelwch yn anhygoel," meddai'r ferch o Fethesda. "Roedd rhaid i mi gael fy holi a chlirio gan yr FBI cyn dechrau'r seremoni er mwyn sicrhau nad oeddwn yn risg diogelwch iddi.

"Roedd Helen Mirren yn hyfryd ac yn brydferth iawn, ac mae'n gyfaill da i ffrind i mi."

Roedden nhw eisiau rhywun "oedd ddim yn Americanaidd" efo'r "cyfuniad o allu i gyflwyno" ar lwyfan "enfawr" o flaen 1,000 o bobol, yn ôl Gwenfair Vaughan Jones.

Mae hi'n rhestru rhai o'r enwogion eraill y mae hi wedi cyfarfod â nhw - Angela Lansbury sydd newydd fod mewn drama Broadway gyda Catherine Zeta Jones; Alec Baldwin; Daniel Radcliffe; Tim Robbins; Diane Weist; Katie Holmes (gwraig Tom Cruise); Danny DeVito a Jim Henson, creawdwr y Muppets a **Sesame Street** gyda'r pyped Elmo.

"A'r Tywysog Andrew cwpl o weithiau, Sarah Ferguson, Regis Philbin. Mae llawer mwy sydd yn adnabyddus yn America na fyddai pobol gartref yn eu hadnabod."

Y theatr sy'n rhoi'r wefr fwyaf i Gwenfair Vaughan Jones, ac mae hi wedi dod yn agos i gael rhannau yng nghynyrchiadau Broadway.

"Dw i ddim wedi bod yn gwthio fi fy hun na chwilio am waith teledu o gwbl, gan fy mod i'n canolbwyntio ar waith theatr," eglura. "Dw i ddim wedi cyrraedd Broadway eto, ond wedi bod ar restr fer ar gyfer cynhyrchiad **Equus**."


Mae hi wedi canolbwyntio ar gynhyrchu dramâu cyfoes a chlasurol "*off*-Broadway" ac actio ynddyn nhw, fel **Miss Julie** gan Strindberg.


Cafodd ran mewn ffilm fer ar gyfer adran ffilmiau byrion yr Academy Awards, ac mae wedi gwneud gwaith trosleisio – un job oedd dynwared llais Catherine Zeta Jones i gwmni ffôn. Fe fydd cynhyrchwyr theatr yn gofyn weithiau iddi am gymorth ar agweddau Cymreig ar ddramâu fel Shakespeare.

Fe fydd hefyd yn gweithio'n achlysurol i'r Cynulliad yn Efrog Newydd yn cynhyrchu digwyddiadau diwylliannol adeg Dydd Gŵyl Dewi, ac ar gyfer elusen i gofio Prydeinwyr a gafodd eu lladd ar Fedi 11, 2001.

Mae hi hefyd wedi gwneud rhaglen i'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer eu hymgyrch i annog llywodraethau'r byd datblygedig i beidio â defnyddio trais yn erbyn merched fel arf rhyfel.







"Roedd Helen Mirren yn hyfryd ac yn brydferth iawn, ac mae'n gyfaill da i ffrind i mi."

golwg | hydref 7 | 2010

## Dysgu Myfanwy i'r Americanwyr

Ar hyn o bryd mae Gwenfair Vaughan Jones yn actio Polly Garter a naw o gymeriadau eraill mewn cynhyrchiad o **Under Milk Wood**, drama enwog Dylan Thomas, yn rhan o ŵyl sy'n dathlu diwylliannau gwahanol Pennsylvania.

"Roedden nhw wedi dychryn bod yna Gymraes Gymraeg ei hiaith yn Efrog Newydd," meddai hi am ymateb aelodau cwmni Electric Theatre Company, sy'n trefnu'r cynhyrchiad yn rhan o ddathliad 'Acting Ethnic: The Welsh' yn nhref Scranton.

Mae hon yn ŵyl sy'n para mis ac wedi'i threfnu i ddathlu'r cysylltiadau Cymreig yn Nyffryn Lackawanna ac ardal Scranton Pennsylvania, sydd i'r gorllewin o Efrog Newydd. Mae hefyd yn cyd-daro gyda chanmlwyddiant y St David's Society yn Scranton. Mi fydd cyngherddau, darlleniadau barddoniaeth ac arddangosfeydd hefyd yn cael eu trefnu.

"Mae fy Nghymreictod a fy iaith yn bwysig iawn i mi," meddai Gwenfair Vaughan Jones. "Er fy mod yn Gymraes alltud, dw i'n falch iawn o'r cyfle o hybu fy ngwlad, diwylliant a'r iaith, pob cyfle ddaw.

"Doeddwn i ddim yn gallu peidio â derbyn y cyfle i ddod i berfformio **Under Milk Wood** mewn ardal sydd yn parhau i hybu ei Chymreictod gyda balchder, a dysgu mwy am yr ardal a'r bobol o dras Gymreig."

Darlun o fywyd tref fach glan môr ym Mae Ceredigion mewn noson a diwrnod yw **Under Milk Wood**, a sgrifennodd Dylan Thomas ar gyfer y radio yn 1950.

Cafodd Gwenfair Vaughan Jones y dasg o helpu'r actorion eraill gyda'u hacenion Cymreig, a'u dysgu sut i ynganu geiriau fel Waldo, Llareggub a Myfanwy yn gywir.

"Mae Gweddi Eli Jenkins yn ailadrodd llefydd yng Nghymru," meddai. "Dw i'n gweithio'n galed yn mynd trwy'r enwau yma – yr holl enwau sy'n golygu dim byd iddyn nhw, fel Carnedd Llywelyn, Llyfnant a Charreg Cennen."

Mae perfformio **Under Milk Wood** ac egluro hanes Cymru wedi "codi hiraeth" arni i ddod nôl i'r Hen Wlad i weithio.

"Dw i mewn sefyllfa lle alla' i fynd a dod. Faswn i wrth fy modd yn dod 'nôl a gwneud contract theatr am fis neu ddau, neu gyfres deledu. Mae hi'n neis gweithio yn gwneud rhywbeth lle chi ddim yn gorfod egluro... gan eich bod chi o'r un lle, yn siarad yr un iaith."

■ Non Tudur

• **Under Milk Wood, Electric Theatre Company, Scranton, Pennsylvania, tan Hydref 31**